summer/haf 2010

ffotogallery

Summer/Haf 2010

Ffotogallery is the national development agency for photography and lens-based media in Wales. We have an ongoing programme of temporary exhibitions of contemporary photography and other lens-based media, often with accompanying publications. Our extensive learning and engagement programme delivers opportunities for creative participation for a wide cross-section of the community.

Ffotogallery yw'r asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer ffotograffiaeth a chyfryngau'n seiliedig ar lens yng Nghymru. Mae gennym raglen barhaus o arddangosfeydd dros-dro o ffotograffiaeth gyfoes a chyfryngau eraill yn seiliedig ar lens, yn aml gyda chyhoeddiadau cysylltiedig. Mae ein rhaglen o ddysgu ac ymgysylltu yn darparu cyfle i drawstoriad eang o'r gymuned i gyfranogi'n greadigol.

Information

Ffotogallery office, courses and darkrooms at Chapter, Market Road, Canton, Cardiff CF5 1QE
Office tel. 029 2034 1667

Ffotogallery exhibitions at Turner House, Plymouth Road, Penarth CF64 3DH
Open Tuesday – Saturday 11am – 5pm Gallery tel. 029 2070 8870

Please note that group visits and activities happen on many Tuesdays, and the gallery can be busy on these days

www.ffotogallery.org

Gwybodaeth

Swyddfa Ffotogallery, cyrsiau a stafelloedd tywyll yn Chapter, Heol y Farchnad, Treganna, Caerdydd CF5 1QE Rhif ffôn y swyddfa: 029 2034 1667

Arddangosfeydd Ffotogallery yn Nhŷ Turner, Heol Plymouth, Penarth CF64 3DH
Ar agor Mawrth – Saturday 11am – 5pm Rhif ffôn yr oriel: 029 2070 8870

Mae'r gweithgareddau grŵp yn cymryd lle ar ddydd Mawrth, oherwydd hyn fe all yr oriel fod frysur iawn ar y dyddiad yma

www.ffotogallery.org

Raymond Depardon
Villes/Cities

www.magnumphotos.com/raymonddepardon

This three year project by Raymond Depardon led him to twelve evolving cities around the world. In each city he lost himself in the crowd, becoming an invisible 'picture thief' to record unguarded images of people in streets, squares, shops, cafes and going about their everyday lives in a series of distinct locations. *"I remained a tourist a little off the beaten track, full of curiosity, but always an amateur"*. Favouring a spontaneous and instinctual approach and shooting pictures on the move, he spent only a short time in each place to ensure that the images preserved his first impressions.

The resulting exhibition of photographs, presented like a continuous filmstrip, captures the movement of people within the metropolis and builds a fascinating narrative exposing aspects of life which can otherwise be taken for granted.

Raymond Depardon began taking photographs in 1954 on his family farm in Garet, France, at the age of 12. In 1966 he co-founded the Gamma photographic agency, reporting from around the world. From 1974 to 1977, as a photographer and filmmaker, he covered the kidnap of French ethnologist François Claustre in northern Chad. He also began to make documentary films alongside his photography career. In 1978, he joined Magnum and continued his reportage work. He has made eighteen feature-length films and published forty-seven books.

Exhibition organised in association with Magnum Photos

Trefnwyd yr arddangosfa mewn cydweithrediad â Magnum Photos

Arweiniodd y project tair-blynedd hwn Raymond Depardon i ddeuddeg o ddinasoedd sy'n esblygu ym mhedwar ban y byd. Ym mhob un, ymgollodd yn y dorf, gan fynd yn 'lleidr lluniau' anweledig sy'n cofnodi delweddau diwarchod o bobl mewn strydoedd, sgwariau, siopau, caffis, ac wrthi'n byw eu bywydau bob-dydd mewn cyfres o leoliadau gwahanol. *"Roeddwn yn dal i fod yn dwrist, ychydig oddi ar y llwybr sathredig, yn llawn chwilfrydedd, ond yn amatur bob amser."* Gan ddefnyddio camerâu elfennol, a heb dalu nemor ddim sylw i athrawiaeth techneg a chyfansoddiad, dim ond amser byr y byddai'n ei dreulio ym mhob man er mwyn sicrhau fod ei ddelweddau'n cadw ei argraffiadau cyntaf.

Mae'r arddangosfa o ffotograffau a ddeilliodd o hyn, a gyflwynir ar ffurf stribed ffilm barhaus, yn dangos symudiad pobl o fewn y ddinas ac yn adeiladu naratif cyfareddol sy'n datgelu agweddau ar fywyd a allai gael eu cymryd yn ganiataol fel arall.

Dechreuodd Raymond Depardon dynnu lluniau ym 1954 ar y fferm deuluol yn Garet, Ffrainc, yn 12 mlwydd oed. Ym 1966, cydsefydlodd asiantaeth ffotograffig Gamma, gan adrodd ar ddigwyddiadau o bedwar ban y byd. O 1974 tan 1977, fel ffotograffydd a gwneuthurydd ffilmau, bu'n dilyn herwgipiad yr ethnolegydd Ffrengig, François Claustre, yng ngogledd Chad. Dechreuodd wneud ffilmiau dogfennol hefyd, ochr yn ochr â'i yrfa ffotograffig. Ym 1978, ymunodd â Magnum a pharau â'i waith newyddiadurol. Mae wedi gwneud deunaw o ffilmiau hyd-llawn ac wedi cyhoeddi deugain a saith o lyfrau.

Zed Nelson
Love Me

www.zednelson.com

Love Me reflects on the cultural and commercial forces that drive a global obsession with youth and beauty. Over a period of five years Zed Nelson visited eighteen countries across five continents, reflecting on a world we have created in which there are social, psychological and economic rewards and penalties attached to the way we look.

Whilst Nelson's subjects appear willing participants in an omnipresent culture of bodily improvement, he feels they are also hapless victims – at the mercy of larger social forces and locked into an insatiable craving for approval. As the subject's frailties and pretensions are exposed, so too are we the viewer: our motives for looking, for inspecting, along with uncomfortable reminders of our own vanities and insecurities.

Nelson's seminal project *Gun Nation* was exhibited worldwide, awarded five major international photography prizes and published as a book. *Love Me* was recently shortlisted for the Leica European Publishers Award for Photography. Zed Nelson's previous awards include the Visa d'Or at the International Festival of Photojournalism, France; First Prize in World Press Photo Competition; and the Alfred Eisenstaedt Award, USA. Nelson's work has been exhibited at the National Portrait Gallery, the Tate Britain, and is in the permanent collection of the Victoria & Albert Museum. Nelson has had solo shows in London, Stockholm and New York.

Exhibition jointly commissioned by Ffotogallery and Impressions

Comisiynwyd yr arddangosfa ar y cyd gan Ffotogallery ac Impressions

Mae *Love Me* yn myfyrio ar y grymoedd diwylliannol a masnachol sy'n gyrru obsesiwn byd-eang gydag ieuenctid a harddwch. Dros gyfnod o bum mlynedd, ymwelodd Zed Nelson â deunaw o wledydd ar bum cyfandir, gan fyfyrio ar y byd rydym wedi ei greu lle mae gwobrau a chosbau cymdeithasol, seicolegol ac economaidd ynghlwm wrth ein hymddangosiad.

Tra bod testunau Nelson yn ymddangos yn ddigon parod i gyfranogi mewn diwylliant hollbresennol o harddu'r corff, teimla hefyd eu bod yn ddioddefwyr anffodus – ar drugaredd grymoedd cymdeithasol mwy, ac yn gaeth i'w chwant anniwall am gymeradwyaeth. Fel y caiff eu gwendidau a'u ymhoniadau eu datgelu, felly hefyd yr eiddom ninnau, y gwylwyr: ein cymhellion dros syllu, dros archwilio, ynghyd â phethau sy'n atgof digon anghysurus o'n balchder a'n hansicrwydd ein hunain.

Cafodd project arloesol Nelson, *Gun Nation*, ei arddangos ledled y byd, dyfarnwyd pum gwobr ffotograffig fawr ryngwladol iddo, a chafodd ei gyhoeddi fel llyfr. Cyrhaeddodd *Love Me* restr fer Gwobr Cyhoeddwyr Ewrop Leica yn ddiweddar. Mae gwobrau blaenorol Zed Nelson yn cynnwys y Visa d'Or yn yr ŵyl Ffotonewyddiaduraeth Ryngwladol, Ffrainc; Gwobr Gyntaf yng nghystadleuaeth Ffotograffau Gwasg y Byd; a Gwobr Alfred Eisenstaedt, UDA. Cafodd gwaith Nelson ei arddangos yn yr Oriel Bortreadau Genedlaethol a Tate Britain, ac mae yng nghasgliad parhaol Amgueddfa Victoria ac Albert. Mae Nelson wedi cynnal sioeau unigol yn Llundain, Stockholm ac Efrog Newydd.

Events & Activities
Digwyddiadau a Gweithgareddau

FORUM

Monthly Thursday meetings;
17 June, 15 July, 12 August, 23 September
ffotogallery-forum.blogspot.com
FREE

Our artist FORUMs offer an informal platform for visual arts practitioners, students and graduates to meet, present work, exchange ideas, experience and opinions.

Anyway, Anyhow, Anywhere Street Photography in 2010 (talk/seminar)

15 July, 6.00pm – 8.00pm
(8.00pm onwards FORUM)
FREE

Responding to the Depardon exhibition, the future of street photography is discussed in the light of new restrictions on the right to take photos in public places.

Picturing the Past

17 July, 2.00pm – 4.00pm
FREE

As one of the finale events of Penarth Festival, join Alan Thorne for an illustrated talk looking back to the 1911 census and the Seamen's Strike.

FFORWM

Cyfarfodydd misol ar ddydd Iau
17 Mehefin, 15 Gorffennaf,
12 Awst, 23 Medi
ffotogallery-forum.blogspot.com
RHAD AC AM DDIM

Mae'n FFORYMAU artistiaid yn cynnig llwyfan anffurfiol i ymarferwyr, myfyrwyr a graddedigion celfyddydau gweledol i gwrdd, cyflwyno gwaith, cyfnewid syniadau, profiadau a barn.

Unrhyw ffordd, Unrhyw sut, Unrhyw le Ffotograffiaeth Stryd yn 2010 (sgwrs/seminar)

15 Gorffennaf, 6.00pm – 8.00pm
(8.00pm ymlaen, FFORWM)
RHAD AC AM DDIM

Mewn ymateb i arddangosfa Depardon, trafodir dyfodol ffotograffiaeth stryd yng ngoleuni cyfyngiadau newydd ar yr hawl i dynnu ffotograffau mewn mannau cyhoeddus.

Darlunio'r Gorffennol

17 Gorffennaf, 2.00pm – 4.00pm
RHAD AC AM DDIM

Fel un o'r digwyddiadau sy'n cloi Gŵyl Penarth, ymunwch ag Alan Thorne am sgwrs ddarluniedig yn edrych yn ôl at gyfrifiad 1911 a Streic y Morwyr.

To book a place, for more information or to get involved with our events please contact **turnerhouse@ffotogallery.org** or visit **www.ffotogallery.org**

Er mwyn cadw lle, am fwy o wybodaeth neu i gymryd rhan yn ein digwyddiadau, da chi cysylltwch â **turnerhouse@ffotogallery.org** neu ymwelwch â **www.ffotogallery.org**

Book Arts Fayre

9 October, 11.00am – 5.00pm
ffotogallerybookartsfayre.wordpress.com
FREE

Set in Turner House, our bi-annual Book Arts Fayres are an opportunity to explore and engage in a wealth of artist bookworks and print practice from Wales and beyond.

For information on how to apply for a stall and the line-up as is confirmed, see our BAF Blog site ffotogallerybookartsfayre.wordpress.com.

Ffair Lyfrau Celf

9 Hydref, 11.00am – 5.00pm
ffotogallerybookartsfayre.wordpress.com
RHAD AC AM DDIM

Wedi eu lleoli yn Nhŷ Turner, mae'n Ffeiriau Llyfrau Celf ddwywaith y flwyddyn yn gyfle i archwilio a chyfranogi mewn cyfoeth o weithiau llyfr artistiaid ac arfer argraffu o Gymru a thu hwnt.

Am wybodaeth ynglŷn â sut i wneud cais am stondin, a charnhad o bwy fydd yn bresennol, gweler ein gwefan Flogio BAF ffotogallerybookartsfayre.wordpress.com.

Workshops

Tales from the Bear's Head

10 July, 11.00am – 3.00pm
FREE – advance booking recommended

Follow in Magnum photographer Raymond Depardon's footsteps and learn how to shoot and edit your own digital, three picture story to create a documentary narrative about life in Penarth (The Bear's Head).

Make me…

18 September, 11.30am – 3.30pm
FREE

This Gallery Short in digital photography will respond to contemporary notions of body image, consumerism and celebrity, explored in Zed Nelson's new body of work, *Love Me*.

As family drop-in sessions, Gallery Shorts invite you to take a closer look at our exhibitions and make your very own artworks with the help of Ffotogallery's education team.

Gweithdai

Straeon o Ben yr Arth

10 Gorffennaf, 11.00am – 3.00pm
RHAD AC AM DDIM – argymhellir bwcio o flaen llaw

Dilynwch yn ôl traed ffotograffydd Magnum, Raymond Depardon, a dysgwch sut i saethu a golygu eich stori ddigidol, dri-darlun eich hunan i greu naratif dogfennol am fywyd ym Mhenarth (Pen yr Arth).

Gwnewch fi…

18 Medi, 11.30am – 3.30pm
RHAD AC AM DDIM

Bydd y Pwt Oriel hwn mewn ffotograffiaeth ddigidol yn ymateb i syniadau cyfoes am ddelwedd y corff, prynwriaeth ac enwogrwydd, a archwilir yng ngwaith newydd Zed Nelson, *Love Me*.

Fel sesiynau galw-heibio i'r teulu, mae Pytiau Oriel yn eich gwahodd i edrych yn fwy manwl ar ein harddangosfeydd a gwneud eich gweithiau celf eich hunain gyda chymorth tîm addysg Ffotogallery.

Summer Courses
Cyrsiau'r Haf

Photographic Ramble

Marc Arkless / Price: £30
17 July, 10:00 am – late afternoon
(Transport from/to Chapter provided)

A ramble with landscape photographer Marc Arkless, photographing stunning locations along the Glamorgan Heritage Coast. After lunch, starting at Dunraven Castle at Southerndown, we'll explore the heritage coastal path. For the best results a tripod is always recommended but remember you have to carry it.

Ar Grwydr Ffotograffig

Marc Arkless / Pris: £30
17 Gorffennaf, 10:00am – hwyr y prynhawn
(cludiant nôl a mlaen o Chapter)

Ar grwydr gyda'r ffotograffydd tirlun Marc Arkless, i dynnu ffotograffau o leoliadau trawiadol ar hyd Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Ar ôl cinio, gan ddechrau gyda Chastell Dwn-rhefn yn Southerndown, byddwn yn archwilio llwybr treftadaeth y glannau. Am y canlyniadau gorau, trybedd amdani bob tro, ond cofiwch mai chi fydd yn gorfod ei chario.

Summer-Sun-Prints (for kids)

Ffotogallery Education Team / Free
17 July & 18 August at Penarth Beach
DROP IN / 11 – 4 (weather permitting)

This workshop for children and families will take place on Penarth sea front. Comb the beach for treasures and create and develop sunprints with your found objects.

Printiau-Heulwen-Haf (i blant)

Tîm Addysg Ffotogallery / Rhad ac am ddim
17 Gorffennaf a 18 Awst ar Draeth Penarth
GALWCH HEIBIO / 11 tan 4
(os bydd y tywydd yn caniatáu)

Cynhelir y gweithdy hwn ar gyfer plant a theuluoedd ar lan-môr Penarth. Cribiniwch y traeth am drysorau cyn creu a datblygu printiau heulwen o'ch gwrthrychau cael.

Pinhole Workshop

Joanne Sutton / Price: £10
3 August, 11:30 am – 3:30 pm at Chapter
Children under 12 should be accompanied by an adult

Exciting workshop for young people. Create extraordinary images out of ordinary objects with your own, homemade Pinhole Camera, as cheap, fast and fun as the most modern digital technology.

Gweithdy Twll Pin

Joanne Sutton / Pris: £10
3 Awst, 11:30am – 3:30pm yn Chapter
Dylai plant o dan 12 fod yng nghwmni oedolyn

Gweithdy cyffrous ar gyfer pobl ifanc. Crewch ddelweddau rhyfeddol o wrthrychau cyffredin gyda chamera twll pin o'ch gwaith llaw eich hunan, mor rhad, mor gyflym ac yn gymaint o hwyl â'r dechnoleg ddigidol fwyaf modern.

To book a place call **029 2034 1667** or email **julia@ffotogallery.org**

I gadw lle, ffoniwch **029 2034 1667** neu anfonwch ebost at **julia@ffotogallery.org**

Introduction to Studio Lighting

Ffotogallery Education Team / Price: £25
4 Aug, 11:00 am – 4:30 pm at Turner House

A practical introduction to the photographic studio; learn how to manipulate flash and backdrops to create professional digital portraits or still life images.

Cyflwyniad i Oleuo Stiwdio

Tîm Addysg Ffotogallery / Pris: £25
4 Awst, 11:00am – 4:30pm yn Nhŷ Turner

Cyflwyniad ymarferol i'r stiwdio ffotograffig: dysgwch sut i ymdrin â fflach a chefnlenni i greu portreadau digidol neu ddelweddau bywyd-llonydd proffesiynol.

Profile Shots

Ffotogallery Education Team / Price: £15
7 Aug, 11:30 am – 3:30 pm at Turner House

DIY approach to making your profile picture more professional without the pro toolkit. No previous experience necessary – Just bring your own digital camera.

Saethu Proffil

Tîm Addysg Ffotogallery / Pris: £15
7 Awst, 11:30am – 3:30pm yn Nhŷ Turner

Ffordd DIY o fynd ati i wneud eich darlun proffil yn fwy proffesiynol heb offer proffesiynol. Does dim angen profiad blaenorol – dim ond dod â'ch camera digidol eich hun.

Professional Portraiture

Toril Brancher / Price: £25
14 August, 10:30 am – 4:30 pm at Chapter

Spend a morning comparing some portrait history with contemporary styles before exploring a practical image making afternoon. No previous experience necessary – Just bring your own camera.

Portreadu Proffesiynol

Toril Brancher / Pris: £25
14 Awst, 10.30am – 4.30pm yn Chapter

Treuliwch fore yn cymharu tipyn o hanes portreadu ag arddulliau cyfoes cyn bwrw ati am brynhawn ymarferol o greu delweddau. Does dim angen profiad blaenorol – dim ond dod â'ch camera eich hun.

Getting To Grips With Your Camera

Faye Chamberlain / Price: £25
15 August, 10.30am – 4.30pm at Chapter

This course is aimed at deciphering the jargon through practical assignments, giving you the opportunity to put into practice what you learn while obtaining maximum use of your film or digital camera. No experience necessary.

Mynd i'r Afael â'ch Camera

Faye Chamberlain / Pris: £25
15 Awst, 10.30am – 4.30pm yn Chapter

Nod y cwrs hwn yw dehongli'r jargon trwy waith ymarferol, a fydd yn rhoi cyfle i chi ymarfer yr hyn rydych wedi ei ddysgu tra'n cael y defnydd gorau o'ch camera ffilm neu ddigidol. Does dim angen profiad blaenorol.

Photoshop Taster Day

Helen Warburton & Anne Siegel / Price:£25
4 September, 10.30am – 4.30pm at Chapter

Using our digital darkroom, this practical workshop will introduce you to Adobe CS4, the industry standard tool for creative digital imaging. It will cover the scanning and uploading of images, adjustments and preparing files for production of a finished digital print.

Blas ar Photoshop

Helen Warburton ac Anne Siegel / Pris:£25
4 Medi, 10.30am – 4.30pm yn Chapter

Gan ddefnyddio'n stafell dywyll ddigidol, bydd y gweithdy ymarferol yma'n eich cyflwyno i Adobe CS4, safon y diwydiant ar gyfer delweddu digidol creadigol. Yn ymdrin â sganio delweddau a'u llwytho i fyny, adnewidiadau, a pharatoi ffeiliau ar gyfer cynhyrchu print digidol gorffenedig.

Courses
Cyrsiau

www.ffotogallery.org/courses.php

Ffotogallery courses are held in our facilities at Chapter Arts Centre, Canton. Classes are small, artist led and take place in an enjoyable atmosphere.

Cynhelir cyrsiau Ffotogallery yn ein cyfleusterau yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Treganna. Mae'r dosbarthiadau'n fach, wedi eu harwain gan artistiaid, ac yn digwydd mewn awyrgylch ddifyr.

If you have a query on the course content, or are unsure which course and how to book, please contact **education@ffotogallery.org**

You can also access course information and class times on our website at **ffotogallery.org/courses.php**

Os oes gennych gwestiwn am gynnwys cwrs, neu os nad ydych yn siŵr pa gwrs i'w ddilyn, cysylltwch ag **education@ffotogallery.org**

Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth am gyrsiau ac amserau dosbarthiadau ar ein gwefan: **ffotogallery.org/courses.php**

Accreditation
Ffotogallery courses are accredited by Cardiff School of Art and Design, UWIC. Students who submit their work at the end of each course will receive 20 credits. By obtaining 3 modules (60 credits) you will receive a UWIC Continuing Education Award.

Achredu
Achredir cyrsiau Ffotogallery gan Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, APCC. Bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno gwaith ar ddiwedd pob cwrs yn derbyn 20 credyd. Trwy gwblhau 3 modiwl (60 credyd) cewch Dystysgrif Addysg Barhaus APCC.

Photography
Ffotograffiaeth

Introduction to Photography Part One & Two are normally prerequisites to continuing your studies on our other photography courses (This excludes Creative Media Courses).

Mae Cyflwyniad i Ffotograffiaeth Rhannau Un a Dau fel arfer yn rhagamod ar gyfer parhau i astudio ar ein cyrsiau ffotograffiaeth eraill (ac eithrio Cyrsiau Cyfryngau Creadigol).

Introduction to Photography 1: Beginners

Day, Evening & Weekend classes available from 13.09.10

A practical course for beginners which takes the guesswork out of producing the pictures you want. Learn how to get the best results from your camera and discover what makes a photograph successful. Undertake a practical project applying the skills you gain and produce a portfolio of your own photographs. Suitable for either 35mm SLR or digital camera with manual controls.

Cyflwyniad i Ffotograffiaeth 1: Dechreuwyr

Cyrsiau Dydd, Nos a Phenwythnos o'r 13.09.10

Cwrs ymarferol i ddechreuwyr sy'n eich helpu i gynhyrchu'r union lun rydych ei eisiau. Dysgwch sut i gael y canlyniadau gorau gyda'ch camera, a darganfyddwch beth sy'n gwneud ffotograff llwyddiannus. Gwnewch broject ymarferol gan ddefnyddio'r sgiliau rydych wedi eu dysgu a chynhyrchwch bortffolio o'ch ffotograffau eich hunan. Yn addas ar gyfer camera digidol neu gamera SLR 35mm wedi ei reoli â llaw.

Introduction to Photography 2: Intermediate

Day, Evening & Weekend classes available from 14.09.10

This is a broad practical course that builds on your photographic skills and introduces further techniques, approaches and photographic print processes. You will learn how to produce high quality prints from your own negatives or digital files. The course will introduce you to both chemical and digital darkroom techniques, exploring exposure, contrast and colour control. You will undertake a practical project on a chosen theme, developing a series of images that employ a range of camera skills and produce a portfolio of your own photographic prints.

Cyflwyniad i Ffotograffiaeth 2: Canolradd

Cyrsiau Dydd, Nos a Phenwythnos o'r 14.09.10

Cwrs ymarferol eang yw hwn sy'n adeiladu ar sail eich sgiliau ffotograffig ac yn cyflwyno rhagor o dechnegau, dulliau a phrosesau print ffotograffig. Fe ddysgwch sut i gynhyrchu printiau o safon uchel o'ch negyddion neu'ch ffeiliau digidol. Bydd y cwrs yn eich cyflwyno i dechnegau stafell dywyll cemegol a digidol, gan archwilio dinoethi, cyferbyniad, a rheoli lliw. Fe gwblhewch broject ymarferol ar thema ddethol, gan ddatblygu cyfres o ddelweddau sy'n defnyddio amrywiaeth o sgiliau camera, a chynhyrchu portffolio o'ch printiau ffotograffig.

Advanced Digital Photography

Sundays from 19.09.10

This course will help you understand the development of new media in photography, and develop a broad practical knowledge of Adobe Photoshop, digital photography techniques and equipment. You will use our digital darkroom to produce your own portfolio, and gain skills and confidence in making, manipulating and archiving your own digital pictures, using your own equipment.

Ffotograffiaeth Ddigidol Uwch

Dyddiau Sul o'r 19.09.10

Bydd y cwrs yma yn eich helpu i ddeall datblygiad cyfryngau newydd mewn ffotograffiaeth a datblygu dealltwriaeth ymarferol eang o Adobe Photoshop, a thechnegau ac offer ffotograffiaeth ddigidol. Byddwch yn defnyddio ein stafell dywyll ddigidol i gynhyrchu'ch portffolio eich hunan, ac yn magu hyder a sgiliau mewn gwneud, adnewid ac archifo eich lluniau digidol, gan ddefnyddio'ch offer eich hun.

Black and White Photography

Sundays from 19.09.10

This course aims to develop a broad practical knowledge of all aspects of black and white photography and darkroom techniques. The emphasis will be on the creative potential of black and white photography. You will produce a portfolio of black and white enlargements from your negatives, working on a chosen theme.

Ffotograffiaeth Ddu a Gwyn

Dyddiau Sul o'r 19.09.10

Nod y cwrs yma yw datblygu gwybodaeth ymarferol eang o bob agwedd ar ffotograffiaeth ddu a gwyn a thechnegau stafell dywyll. Bydd y pwyslais ar bosibiliadau creadigol ffotograffiaeth ddu a gwyn. Byddwch yn cynhyrchu portffolio o brintiau mawr du a gwyn o'ch negyddion, gan weithio ar thema ddethol.

Landscape Photography

Thursdays from 16.09.10

This course explores images of the landscape within a historical and technical context. For example, we will consider time of day and weather conditions and how they influence the quality of light and evoke changing moods. You will shoot new pictures on location and produce a portfolio of your own images in colour or black and white.

Ffotograffiaeth Dirlun

Dyddiau Iau o'r 16.09.10

Mae'r cwrs yma'n archwilio delweddau o'r dirwedd o fewn cyd-destun hanesyddol a thechnegol. Er enghraifft, byddwn yn ystyried yr adeg o'r dydd ac amodau'r tywydd a sut y maent yn dylanwadu ar ansawdd y goleuni a chreu naws gyfnewidiol. Byddwch yn saethu lluniau newydd ar leoliad ac yn cynhyrchu portffolio o'ch delweddau eich hunan mewn lliw neu ddu a gwyn.

Documentary Photography

Saturdays from 18.09.10

This course will examine the history and practice of documentary photography, focussing on visual narrative and study of the work of photographers in this tradition. Practical techniques are explored and students are invited to research a topic, plan, produce and present a personal photography project, or photo-story.

Photographing People

Tuesdays from 14.09.10

This course explores the factors involved in producing insightful portraits. Through photographing people in a variety of situations and lighting conditions, you will develop an understanding of the subject/photographer relationship. Techniques covered include differential focussing, lighting control, fill-in flash, choice of film and print presentation.

Constructed Images

Tuesdays from 14.09.10

This course will encourage you to experiment with photographic representation using traditional and contemporary techniques including double exposure, pinhole, montage and digital manipulation; create special effects with cameras, in the darkroom and through creative presentation. You will undertake a practical project and produce a portfolio of your own prints using a variety of techniques or concentrating on one in depth.

Ffotograffiaeth Ddogfennol

Dyddiau Sadwrn o'r 18.09.10

Bydd y cwrs yma'n archwilio hanes ac arfer ffotograffiaeth ddogfennol, gan ganolbwyntio ar naratif gweledol ac astudio gwaith ffotograffwyr yn y traddodiad yma. Archwilir technegau ymarferol a gwahoddir myfyrwyr i ymchwilio i bwnc, a chynllunio, cynhyrchu a chyflwyno project ffotograffig personol, neu ffoto-stori.

Tynnu Ffotograffau o Bobl

Dyddiau Mawrth o'r 14.09.10

Mae'r cwrs yma'n archwilio'r ffactorau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu portreadau craff. Drwy dynnu ffotograffau o bobl mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac amodau goleuo, byddwch yn dod i ddeall y berthynas testun/ffotograffydd. Bydd technegau a ddysgir yn cynnwys amrywio'r ffocysu, rheoli goleuo, fflach lenwi, dewis ffilm a chyflwyno printiau.

Delweddau Gwneud

Dyddiau Mawrth o'r 14.09.10

Bydd y cwrs yma'n eich annog i arbrofi gyda chynrychiolaeth ffotograffig gan ddefnyddio technegau traddodiadol a chyfoes, yn cynnwys dinoethi deublyg, twll pin, montage ac adnewid digidol, a chreu effeithiau arbennig gyda chamerâu, yn y stafell dywyll a thrwy gyflwyniad creadigol. Byddwch yn gwneud project ymarferol a chynhyrchu portffolio o'ch printiau gan ddefnyddio amryw o dechnegau neu ganolbwyntio'n fanwl ar un.

Creative Media
Cyfryngau Creadigol

Creative Website Design 1

Mondays from 13th September

This course introduces you to basic HTML and WYSIWYG design using Dreamweaver. You will develop an awareness of a range of software packages and applications to produce a user-friendly and functional website, incorporating style sheets (CSS) and multimedia content, and use Photoshop techniques to create your own optimised web graphics.

Dylunio Gwefan Creadigol 1

Dyddiau Llun o'r 13eg Medi

Mae'r cwrs yn gyflwyniad i ddylunio HTML a WYSIWYG elfennol gyda Dreamweaver. Byddwch yn dysgu am amrywiaeth o becynnau meddalwedd a chymwysiadau er mwyn cynhyrchu gwefan hwylus, weithredol, yn cynnwys patrymluniau (CSS) a chynnwys aml-gyfrwng, a defnyddio technegau Photoshop i greu'r graffeg gwe gorau posibl.

Creative Website Design 2

Wednesdays from 15th September

This module will expand your web design skills to a professional standard. You will create sophisticated graphics and web-page layouts using Photoshop, expand your knowledge of HTML, and incorporate basic JavaScript, forms, and CSS positioning using Dreamweaver. You will also learn about using Web 2.0 to add interactivity and connections to social networks.

Dylunio Gwefan Creadigol 2

Dyddiau Mercher o'r 15fed Medi

Bydd y modiwl yn ehangu eich sgiliau gwe-ddylunio i safon broffesiynol. Byddwch yn creu graffeg soffistigedig a llunio tudalennau gyda Photoshop, dysgu mwy am HTML, a chynnwys JavaScript elfennol, ffurfiau, a lleoli CSS gan ddefnyddio Dreamweaver. Dysgir hefyd i ddefnyddio Web 2.0 i ychwanegu rhyngweithedd a chysylltau â rhwydweithiau cymdeithasol.

Creative Website Design 3

Saturdays from 18th May

This final module introduces you to Macromedia Flash MX, the industry standard for creating high-impact websites. You will learn how to create vector graphics and animations, incorporate buttons and intereactive elements and add movies and sound to your site. You will use these skills to create a complete interactive Flash web interface.

Dylunio Gwefan Creadigol 3

Dyddiau Sadwrn o'r 18fed Mai

Mae'r modiwl terfynol yma yn eich cyflwyno i Macromedia Flash MX, safon y diwydiant ar gyfer creu gwefannau trawiadol. Dysgir sut i greu graffeg fector a bywddarluniau, cynnwys botymau ac elfennau rhyngweithiol, a rhoi ffilmiau a sain ar eich gwefan. Byddwch yn defnyddio'r sgiliau hyn i greu rhyngwyneb gwe Flash cwbl ryngweithiol.

Introduction to Digital Video

Saturdays from 25th September

A practical course for beginners which introduces you to shooting and editing your own digital video. Learn how to get the best results from your video camera, and discover what makes moving images successful. Undertake a practical project and use Apple Final Cut Pro to produce your own edited sequence.

Cyflwyniad i Fideo Digidol

Dyddiau Sadwrn o'r 25ain Medi

Cwrs ymarferol ar gyfer dechreuwyr sy'n eich cyflwyno i saethu a golygu eich fideo digidol eich hun. Dysgwch sut i gael y canlyniadau gorau â'ch camera fideo, a chanfod beth sy'n gwneud delweddau symudol yn llwyddiant. Gwnewch broject ymarferol a defnyddio Apple Final Cut Pro i gyhyrchu a golygu eich dilyniant eich hun.

Membership
Aelodaeth

As well as an opportunity to support visual art in Wales, we offer our members the following services:

- Support the practice, collection, and promotion of photography in Wales.
- Keep in touch, and receive firsthand knowledge of upcoming exhibitions and events at Ffotogallery and throughout Wales.
- 10% discount on framing/ mounting services.
- 25% discount on Ffotogallery publications and 10% discount on postcards purchased at Turner House Gallery (on production of a valid Membership card).
- Attend regular presentations, gallery talks and seminars by established and emerging artists.
- Discount on Ffotogallery Education workshops and Ffotogallery conferences
- Frame and slide projector loan facilities (refundable deposit required)
- Use of our specialist photographic library and archive.
- Receive a discount on Membership at The Photographer's Gallery.

Contact Julia Way on 029 2034 1667 or julia@ffotogallery.org for more details, or information about corporate membership. We would be delighted to hear about your suggestions.

Yn ogystal â chyfle i gefnogi'r celfyddydau gweledol yng Nghymru, rydym yn cynnig y canlynol i'n haelodau:

- Cyfle i gefnogi arfer, casglu a hyrwyddo ffotograffiaeth yng Nghymru
- Cyfle i gadw mewn cysylltiad, a derbyn gwybodaeth uniongyrchol am arddangosfeydd a digwyddiadau'r dyfodol yn Ffotogallery a ledled Cymru
- 10% o ostyngiad ar wasanaethau fframio/mowntio
- 25% o ostyngiad ar gyhoeddiadau Ffotogallery a 10% o ostyngiad ar gardiau post a brynir yn Oriel Tŷ Turner (rhaid dangos cerdyn aelodaeth dilys)
- Cyfle i fynychu cyflwyniadau rheolaidd, sgyrsiau oriel a seminarau gan artistiaid sydd wedi ennill eu plwyf a rhai sy'n dechrau dod i'r amlwg
- Gostyngiad ar weithdai Addysg Ffotogallery a chynadleddau Ffotogallery
- Cyfleusterau benthyca fframiau a thaflunwyr sleidiau (am ernes ad-daladwy)
- Hawl i ddefnyddio ein llyfrgell ffotograffig arbenigol, a'r archif
- Gostyngiad ar bris Aelodaeth The Photographer's Gallery.

Cysylltwch â Julia Way ar (029) 2034 1667 neu julia@ffotogallery.org am fwy o fanylion, neu wybodaeth am aelodaeth gorfforaethol. Byddem wrth ein bodd i gael clywed eich awgrymiadau.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
sponsored by Welsh Assembly Government

CARDIFF
CAERDYDD

design/dylunio elfen.co.uk

www.ffotogallery.org